Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cofnodion SOC(3)-03-08

Dyddiad: Dydd Mawrth 24 Mehefin 2008
Amser: 6.05pm - 6.25pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1

Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jeff Cuthbert, Caerffili
Chris Franks, Canol De Cymru

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sulafa Halstead, Clerc
Lara Date, Ail Glerc

Hefyd yn bresennol

Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol
Gareth Rogers, Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

Eitem 1: Ymddiheuriadau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams a Brynle Williams. Yn unol â Rheol Sefydlog 10.29, datganodd y Cadeirydd nad oedd cworwm i'r cyfarfod gan fod llai na thri Aelod yn bresennol. Gan nad oedd cworwm yn bresennol mewn 20 munud, cafodd y cyfarfod ei ohirio.

1.2 Cyn gohirio'r cyfarfod, nododd y Cadeirydd y drefn fusnes a fwriadwyd:

Eitem 2 - ystyried y Rheol Sefydlog ddiwygiedig arfaethedig ynghylch cofnodi achosion o gyflogi aelodau o'r teulu gan Aelodau'r Cynulliad - gohiriwyd tan gyfarfod yn y dyfodol.

Eitem 3 - Darparu cod neu brotocol ynghylch rolau a chyfrifoldebau Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol

byddai'r Cadeirydd yn gofyn am ganiatâd Aelodau'r Pwyllgor i gytuno y tu allan i'r pwyllgor ar ddrafft er mwyn ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad cyn diwedd y tymor. Byddai'r pwyllgor wedyn yn ailystyried y drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol ar sail y trafodaethau hynny. Os na fyddai'r Aelodau'n cytuno â'r dull hwn, byddai'r Clerc yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfod ffurfiol arall o'r pwyllgor cyn y cyfarfod ar 15 Gorffennaf.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mehefin 2008